

Papur Bwrdd i'w nodi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 13 Medi 2019

Yn bresennol:	Yn mynychu:
Shan Morgan Ellen Donovan Ann Keane Jeff Farrar Gareth Lynn Andrew Goodall Tracey Burke Des Clifford Andrew Slade Peter Kennedy Natalie Pearson Gawain Evans David Richards Jeff Godfrey Andrew Jeffreys Fran Hill Helena Bird	Dylan Hughes Bethan Griffiths Steven Marshall Yvonne Pawlin Ysgrifenyddiaeth: Charmain Watts
Ymddiheuriadau: Helen Lentle	

1. Croeso

- Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Gillian Russell a oedd ar ymweliad ar ran Llywodraeth yr Alban; Fran Hill, aelod Cysgodol o'r Bwrdd (ail gyfarfod Fran) ac Andrew Jeffreys yn ei gyfarfod cyntaf. Nodwyd bod Andrew Jeffreys wedi'i benodi yn Eiriolwr Cydraddoldeb yn ddiweddar, rôl a drosglwyddwyd iddo gan Gillian Baranski. Rhoddodd y Bwrdd gydnabyddiaeth i'r gwaith da y mae Gillian wedi'i wneud hyd yma.

2. Polisi Iaith Gymraeg

2.1 Ymunodd Dylan Hughes a Bethan Griffiths â'r cyfarfod. Eglurodd Dylan bod llawer o waith yn mynd rhagddo ers cyfarfod y Bwrdd ar 17 Mai 2019 i ddatblygu rhagor ar y polisi ar y defnydd o'r Gymraeg. Bwriad y polisi yw llywio dyhead Llywodraeth Cymru i ddod, erbyn 2050, yn sefydliad lle gall yr holl staff ddeall Cymraeg, lle mae staff yn cael eu galluogi i weithio'n ddwyieithog a lle mae cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r iaith.

2.2 Cyflwynodd Dylan bapur a oedd yn tynnu sylw at fanylion gwaith a wnaed dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys y cerrig milltir a fydd yn cael eu datblygu cyn cytuno ar bolisi yn ddiweddarach yn yr hydref.

2.3 Soniodd y Bwrdd am sesiwn her a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf lle sefydlwyd 5 ffrwd waith i ddatblygu cerrig milltir dros gyfres o gyfnodau 5 mlynedd hyd at 2050 ac i ddatblygu amlinelliad o raglen waith ar gyfer cyfnod cyntaf y polisi: 2019-2024. Cytunwyd hefyd y byddai bwrdd rhaglen yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith, o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol.

2.4 Tynnodd Dylan sylw at y meysydd allweddol ar gyfer sicrhau llwyddiant y polisi hwn, sef:

- Arweinyddiaeth a'r angen i uwch-arweinwyr arwain drwy esiampl
- Technoleg i helpu â'r uchelgais
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ased gadarnhaol wrth recriwtio
- Hyfforddiant addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg ar bob lefel

2.5 Eglurodd hefyd ei bod yn bwysig ymgysylltu â staff a chyflwyno cerrig milltir yn raddol i sicrhau bod y staff o blaid y newid. Roedd y Bwrdd hefyd yn cydnabod na ddylai unrhyw ddull gweithredu olygu nad yw darpar weithwyr newydd am ymuno â'r sefydliad.

2.6 Diolchodd y Bwrdd i Dylan a Bethan am eu gwaith, gan gytuno bod y gwaith ar y trywydd iawn a chroesawu'r cynnydd cadarnhaol a oedd wedi'i wneud. Gofynnodd y Bwrdd am gael gweld yr ystadegau ar alluedd a chapasiti o ran y Gymraeg.

CAM GWEITHREDU 1: Dosbarthu ystadegau am alluedd a chapasiti o ran staff Cymraeg eu hiaith yn y sefydliad ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd.

2.7 Trafododd y Bwrdd y polisi ymhellach gan nodi mai un o'r prif rwystrau yw diffyg hyder staff o ran defnyddio'r Gymraeg. Eglurodd Dylan bod defnyddio technoleg yn bwysig i ddatrys hyn gan fod hynny'n caniatáu i staff gyfieithu eu dogfennau eu hunain, sy'n rhoi'r cyfle iddynt ymarfer a magu hyder.

2.8 Crynhodd yr Ysgrifennydd Parhaol y drafodaeth gan ddweud bod gweledigaeth ac arweinyddiaeth yn bwysig, a chytuno bod gwella hyder y staff yn hanfodol. Eglurodd bod rhaid i'r Gymraeg gael ei hystyried yn fantais wrth ymgeisio am swyddi a bod rhaid glynu wrth yr amserlen. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dod yn sefydliad sy'n gosod esiampl, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.

3.

3.1 Rhoddodd Des Clifford yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf ar addoedi Senedd y DU a gwaith y Goruchaf Lys yr wythnos nesaf yn ystyried cyfreithlondeb hynny.

3.2 Hefyd, dywedodd y byddai risgiau o hyd yn deillio o ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref, ac felly bod rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen yn unol â'r trefniadau. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud na fydd yn fodlon gohirio eto y tu hwnt i 31 Hydref, er bod yr Aelodau Seneddol wedi pasio cyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddo geisio estyniad os nad oes cytundeb erbyn 19 Hydref. Eglurodd Des hefyd ei bod hi'n bosibl y bydd galwad am etholiad yn fuan. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'n rhaid i unrhyw etholiad gael ei gynnal ar ôl 31 Hydref oherwydd bod Senedd y DU wedi'i hatal tan 14 Hydref. Ni ellir cynnal etholiad cyffredinol am o leiaf 25 o ddiwrnodau gwaith ar ôl 14 Hydref, sy'n mynd â ni i ganol mis Tachwedd o leiaf.

3.3 Dywedodd y Bwrdd y bydd dogfennau Yellowhammer yn cael eu cyhoeddi ar 12 Medi, sy'n egluro'r effaith go iawn y byddai ymadael heb gytundeb yn ei chael. Dywedodd Des y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Brexit Heb Gytundeb yr wythnos nesaf, a fydd yn nodi'r risgiau strategol a'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE heb gytundeb. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi trosolwg o fesurau a chamau gweithredu, a fyddai'n helpu i liniaru cymaint â phosibl ar yr effeithiau hyn.

3.4 Rhoddodd Des drosolwg o weithgarwch ymgysylltu a oedd yn mynd rhagddo yn Llywodraeth y DU, gan egluro bod y Gweinidogion yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd a bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi'i gwahodd i gyfarfod y Penaethiaid Adrannau. Aeth Des ac Ellen Donovan i gyfarfod y Penaethiaid Adrannau ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol ddoe, ac roedd y ddau ohonynt o'r farn bod y cyfarfod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.

CAM GWEITHREDU 2: Dosbarthu Cynllun Gweithredu Brexit Heb Gytundeb Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd.

4. Adroddiad Cyllid

4.1 Cyflwynodd Gawain Evans Adroddiad Cyllid a oedd yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Gorffennaf 2019 (mis 4) sef y trydydd adroddiad yng nghyfnod adrodd 2019-20. Mae'n cynnwys ffigurau alldro a ragwelir yn erbyn cyllideb 2019-20. Y gyllideb berthnasol ar gyfer y cyfnod hwn a chyfnodau yn y dyfodol yw Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 9 Gorffennaf.

4.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r prif faterion ariannol a oedd yn bodoli ar y pryd, fel yr oeddent wedi eu nodi gan Benaethiaid Cyllid Llywodraeth Cymru.

4.3 Roedd y trafodaethau pellach yn canolbwyntio ar y canlynol yn bennaf:

- Pwysau refeniw
- Pwysau cyfalaf
- Y sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn
- Y gyllideb DEL bresennol
- Cronfeydd DEL heb eu neilltuo

4.4 Eglurodd Gawain y bydd cyfnod 5 yn cynnwys rhagor o fanylion ac y bydd costau Brexit yn cael eu cofnodi. Cytunodd y Bwrdd i gynnwys eitem benodol ar gyfnod 5 yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Rhoddodd Andrew Jeffreys ddiweddariad byr ar ddatblygiad y Gyllideb.

CAM GWEITHREDU 3: Cynnwys eitem benodol ar adroddiad cyllid cyfnod 5 ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd.

5. Diweddariad Ddangosyddion Perfformiad Allweddol

5.1 Rhoddodd Jeff Farrar a Steven Marshall ddiweddariad ar y prosiect ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Eglurodd Jeff ei fod wedi canolbwyntio ar fesur perfformiad y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad. Eglurodd bod rhaid nodi'r perchnogion yn awr er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith manwl.

5.2 Dywedodd bod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi nodi bod gwaith wedi'i wneud i sefydlu Mynegai Effeithiolrwydd y Gwasanaeth Sifil Rhyngwladol (InCiSE), sy'n ceisio defnyddio data cydweithredol ar draws y Gwasanaeth Sifil mewn 38 o wledydd. Er nad yw'n cynnwys yr holl faterion pwysig ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru, mae'n fan dechrau pwysig y gellir adeiladu

arno ac mae iddo hygredd yn barod yng ngolwg Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros y Gwasanaeth Sifil, yn ogystal â'r Ysgrifennydd blaenorol.

5.3 Eglurodd bod y fframwaith y mae ef yn ei argymhell yn cydbwysu anghenion rheolwyr sefydliadol, rhanddeiliaid mewnol ac allanol, cwsmeriaid a chyflogeion. Dylai'r fframwaith perfformiad arfaethedig olygu bod modd mesur gwelliannau o ran perfformiad, yn ogystal â darparu'r atebolrwydd angenrheidiol.

5.4 Soniodd ei fod wedi llunio ei ddrafft cyntaf o'i adroddiad sy'n rhestru'r prif argymhellion. Bydd hwn yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Parhaol yn fuan.

5.5 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Jeff a Steven am eu gwaith. Hefyd, gofynnodd i'r Bwrdd nodi na fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil eleni. Yn anffodus, nid yw'r Arolwg yn diwallu ein hanghenion mwyach, ac nid yw'n caniatáu inni gynnwys cwestiynau penodol i Lywodraeth Cymru sy'n gadael inni olrhain ymatebion sy'n ymwneud â'n hymrwymadau o ran y Gymraeg, ein blaenoriaethau a ddarperir ar draws y Llywodraeth, a gwaith ar y cyd ar draws y Llywodraeth a'r ffyrdd o weithio yr ydym wedi ymrwymo iddynt fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Cynllunio Gweithlu Strategol - Adolygiad Sylfaenol

6.1 Dywedodd Natalie Pearson ac Yvonne Pawlin bod adolygiad sylfaenol o'r holl swyddi yn y sefydliad wedi cael ei gomisiynu gan yr Ysgrifennydd Parhaol i lywio trafodaethau cynnar gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar bwysau adnoddau ar gyfer 2020-2021.

6.2 Mae'r Adolygiad yn cael ei gynnal o fewn amserlen dynn – a hynny mewn modd mor dryloyw a chynhwysfawr ag y mae cyflymder y broses yn ei ganiatáu. Bydd hyn yn golygu y bydd modd i'r wybodaeth a gasglwyd hefyd lywio'r cynnig tymor hirach a ddatblygir ar gyfer Gweinidogion ynghylch maint, ffurf a gallu'r sefydliad yn y dyfodol.

6.3 Comisiynwyd yr adolygiad ar 6 Medi ac mae disgwyl y canlyniadau erbyn 18 Medi. Eglurodd Natalie beth yw'r camau nesaf, sef dadansoddi a sicrhau ansawdd y data cyn eu bwydo i strategaeth hirdymor ar gyfer pobl. Y bwriad yw cyhoeddi'r wybodaeth i'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ddechrau 2020. Dywedodd Natalie y bydd yn rhoi gwybod i'r Bwrdd am ddatblygiadau ac yn gwahodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i'r gweithdai.

6.4 Nododd y Bwrdd y bydd y gwaith hwn yn gorgyffwrdd ag adolygiad a thrafodaeth y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n canolbwyntio ar swyddogaethau'r Gwasanaethau hynny a'r cynigion cyllid a fydd yn deillio o'r adolygiad sylfaenol.

CAM GWEITHREDU 4: Gwahodd Cyfarwyddwyr Anweithredol i Weithdai'r Adolygiad Sylfaenol a chynnwys y Bwrdd yng ngham trafod y prosiect.

7 Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Is-bwyllgorau

- 7.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol adborth o ddigwyddiad yr Uwch Wasanaeth Sifil yr wythnos diwethaf, a oedd yn llwyddiannus iawn. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar Brexit, blaenoriaethau'r Prif Weinidog a'r gwaith ar yr adolygiad sylfaenol a drafodwyd yng nghyfarfod heddiw.
- 7.2 Rhoddodd David ddiweddariad ar ymateb y crwner a gyhoeddwyd ddoe. Mae'r adroddiad yn rhestru nifer o fesurau i wella'r cymorth a roddir i'r Gweinidogion. Tynnodd David sylw at Wythnos Genedlaethol Hunanladdiad a dywedodd ei bod yn bwysig cefnogi staff yn y sefydliad.
- 7.3 Rhoddodd Ann Keane adborth o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac fe wnaeth longyfarch pawb a oedd yn rhan o'r gwaith yn ymwneud â'r Cyfrifon Blynyddol a gyhoeddwyd erbyn y dyddiad gofynnol. Dywedodd bod newidiadau wedi'u gwneud i lywodraethiant mewn perthynas â Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg a bod swyddogaeth gynnal fwy systematig wedi'i gosod. Bydd y polisi risg yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.
- 7.4 Rhoddodd Jeff Farrar ddiweddariad gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth. Roedd y trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf yn canolbwyntio ar y treial 6 mis o recriwtio'n ddiennw, y cytundeb ar gyfer 6 swydd Dirprwy Gyfarwyddwr a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Hefyd, dywedodd y byddai'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.
- 7.5 Tynnodd Dylan Richards sylw at y cynnydd a wnaed ers Bwrdd Rhaglen Ddeddfwriaethol mis Gorffennaf, gan grynhoi'r adroddiadau statws 'Coch, Melyn, Gwyrdd' ar Filiau'r Llywodraeth. Tynnodd sylw at rai materion a oedd yn ymwneud â staffio, heriau o ran capasiti ar gyfer datblygu polisi parhaus, maint y gwaith sydd i'w gwblhau o hyd, a'r galw uchel am wasanaethau cyfreithiol.

Y camau gweithredu sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd

CAM GWEITHREDU	Y SWYDDOG ARWEINIOL	Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF
CAM GWEITHREDU 1: Dosbarthu ystadegau am alluedd a chapasiti o ran staff Cymraeg eu hiaith yn y sefydliad ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd.	Yr ysgrifenyddiaeth	Cwblhawyd
CAM GWEITHREDU 2: Dosbarthu cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd.	Yr ysgrifenyddiaeth	Cwblhawyd
CAM GWEITHREDU 3: Cynnwys eitem benodol ar adroddiad cyllid cyfnod 5 ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd.	Yr ysgrifenyddiaeth	Cwblhawyd – ar agenda 11/10/19
CAM GWEITHREDU 4: Gwahodd Cyfarwyddwyr Anweithredol i Weithdai'r Adolygiad Sylfaenol a chynnwys y Bwrdd yng ngham trafod y prosiect.	Natalie Pearson	Cwblhawyd

Camau gweithredu wedi eu dwyn ymlaen o 5 Gorffennaf 2019

CAM GWEITHREDU	Y SWYDDOG ARWEINIOL	Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF
CAM GWEITHREDU 1: Ceisio cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gael rhywun ar secondiad.	Peter McDonald	Yn aros i gael arweiniad gan dimau AD/Gweithrediadau o ran y posibilrwydd o gael pobl ar secondiad.
CAM GWEITHREDU 2: Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i symud y gwaith dadansoddol yn ei flaen, ar ôl	Des Clifford	Y sefyllfa ddiweddaraf: cafodd hyn ei ystyried gan y Prif Weinidog, ac yn y tymor byr roedd yn

SWYDDOGOL - SENSITIF
DRAFFT

<p>i Des Clifford drafod y cynnig â'r Prif Weinidog.</p>		<p>well ganddo ganolbwyntio ar y camau gweithredu ymarferol yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.</p>
<p>CAM GWEITHREDU 3: Ymchwilio i weld a fyddai'n bosibl trafod y Rhaglen Ddatgarboneiddio a'r 'argyfwng' newid hinsawdd mewn cyfarfod o Grŵp y Gweinidogion-Gwasanaeth Sifil yn y dyfodol.</p>	<p>Peter McDonald/ yr ysgrifenyddiaeth</p>	<p>I'w gadarnhau</p>
<p>CAM GWEITHREDU 4: Cynnwys eitem ar refeniw trethi ar yr agenda mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.</p>	<p>Yr ysgrifenyddiaeth</p>	<p>Caiff ei gynnwys ar agenda mis Tachwedd</p>
<p>CAM GWEITHREDU 5: Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i ffyrdd o wneud y Bwrdd yn fwy gweladwy.</p>	<p>Yr Ysgrifenyddiaeth</p>	<p>Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymchwilio i broses ar gyfer gwahodd sylwedyddion.</p>
<p>CAM GWEITHREDU 6: KAS i ddrafftio crynodeb ar wahân o sylwadau gan Gyfarwyddwyr Anweithredol.</p>	<p>Sharon Cross</p>	<p>Wedi ei gau</p>
<p>CAM GWEITHREDU 7: Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r gweithdy ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar 23 Gorffennaf.</p>	<p>Yr ysgrifenyddiaeth</p>	<p>Wedi ei gau</p>
<p>CAM GWEITHREDU 8: Natalie Pearson i ddarparu ystadegau ynglŷn â hyfforddi a datblygu yn y Gymraeg.</p>	<p>Natalie Pearson</p>	<p>Wedi ei gau</p>
<p>CAM GWEITHREDU 9: James Owen i ddarparu gwybodaeth am y polisi ynglŷn â recriwtio siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>James Owen</p>	<p>Wedi ei gau</p>

